Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru

1. **A ydych yn cytuno â'n barn y bydd gwasanaeth i blant yn gwella'r gwasanaeth cyhoeddus a gynigir yn y Gymraeg i blant?**

Ydyn. Rydym yn teimlo'n gryf, fel y mae'r ddogfen ymgynghorol yn nodi, y bydd llwyddiant yn ddibynnol ir gynnwys deunydd ar draws pob platfform, nid y darllediadau digidol yn unig.

2. **A oes gennych unrhyw sylwadau / beth yw'ch barn am yr oriau darlledu a gynigir a'n cynulleidfaoedd targed?**

Rydym yn croesawu'r cynnydd sy'n cael ei gynnig ar gyfer oriau darlledu rhaglenni i blant a phobl ifanc.

0 ran y cynulleidfaoedd targed, y mae'r maes polisi yn y byd gwaith ieuenctid yn tueddu i wneud rhaniad mewn cynulleidfaoedd targed pan yn 14 oed, ac felly hefyd y maes addysg, gyda datblygiad Llwybrau Dysgu 14-19 ac ati.

Credwn felly fod darparu'r un deunydd targed i blant hyn rhwng 10 ac 16 yn annhebygol o lwyddo, ac mai'r canlyniad mwy realistig yw mai tan eu hod yn 14 y byddai'r deunydd yn denu.

Rydym yn deall, with gwrs, fod plant a phobl ifanc yn dymuno gwylio deunydd sydd wedi ei anelu at oed ychydig yn hyn na hwy - a bod hynny'n rhan o'r apêl.

3. **Yn eich barn chi, beth fyddai'r nodweddion allweddol pwysicaf ar gyfer gwasanaethau teledu i blant a ddarparir gan S4C?**

Byddai angen iddo fod yn wasanaeth cyson, dibynadwy ei safon, ac yn gallu ymateb yn gyson i anghenion plant a phobl ifanc.

Byddai angen i'r rhaglenni Meithrin gael eu marchnata i rieni, a bod, fel yr awgrymir ar gyfer y rhaglenni i blant hyn yn hawdd i'w canfod at dudalen blaen blant canllawiau electronig.

Mae pwynt 5 o'r ddogfen ymgynghorol yn nodi fod S4C yn darlledu rhaglenni ychwanegol o ddigwyddiadau megis Eisteddfodau. . ar ofod sbâr S4C2. Ymhellach mae'n nodi y byddwch yn parhau i ddarparu rhaglenni ychwanegol (trwy'r botwm coch neu ar sianel S4C2) o ddigwyddiadau cenedlaethol.

Mae'n aneglur i ni a ydy hyn yn golygu y byddai'r sianel blant yn cael ei disodli gan y digwyddiadau hyn am gyfnodau penodol. Oni bai bod y rhaglenni wedi eu hanelu yn bennaf i blant a phobl ifanc, ni fyddem yn ffafrio hynny, a byddai'n well gennym weld rhaglenni ar S4C yn cael en disodli (os nad oes modd darlledu ar unrhyw gynhwysedd sbâr).

Ond, yn amlwg, rydym am weld y ddarpariaeth ddarlledu o Eisteddfod yr Urdd yn parhau ac yn esblygu.

4. **A oes gennych unrhyw sylwadau am yr opsiynau a nodwyd ym mharagraff 4 ac yn arbennig, y dewis rhwng opsiwn 1 a 2? A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried am y mater hwn?**

Fel mudiad ieuenctid, yn amlwg byddem yn blaenoriaethu gofod ychwanegol i blant a phobl ifanc. Byddem felly yn ffafrio opsiwn 2.

Ni fyddem o blaid gweld cymysgu'r ddau fath o gynnwys ar y sianel newydd. Fodd bynnag yn amlwg, byddem yn dymuno gweld darllediadau yn parhau i ddigwydd o'r Cynulliad - ond byddai darlledu band-Ilydan yn ateb y diben yn ddigonol, yn ein barn ni.

5. **A ydych yn credu y byddai darparwr trydydd parti yn fodlon darparu gwasanaeth teledu Cymraeg i Blant o natur debyg i'r un a amlinellwyd uchod, ar sail masnachol?**

Nid ydym mewn sefyllfa i roi barn ar hynny.

6. **A allwch chi feddwl am ran-ddalwyr allweddol nas cynhwyswyd yn Atodiad A?**

Na

7. **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech i ni eu hystyried o ran yr ymgynghoriad hwn ynghylch sianel deledu Gymraeg newydd i blant?**

Ni fydd yn syndod i chi glywed ein bod o'r farn y gallai Ilawer mwy o weithgareddau'r Urdd nad sy'n cael sylw cyfryngol ar hyn o bryd fod yn atyniadol i'w cynnwys mewn rhaglenni i blant a phobl ifanc. Mae ein digwyddiadau chwaraeon, er enghraifft, yn boblogaidd iawn ymhlith ein haelodau - gallwn brofi mewn defnydd uchel iawn o'n gwefan yn union yn dilyn rhai o'r gweithgareddau, er mwyn gweld amseroedd nofio, er enghraifft. Yn ein barn ni mae hyn yn golygu bod potensial ar gyfer trafodaethau pellach yn bosibl. Yn yr un modd, credwn y byddai modd cydweithio a'n gwersylloedd mewn amrywo o ddulliau i greu cynnwys diddorol, ac i ddenu sylw at rhaglenni'r sianel newydd oherwydd y niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n mynd trwy eu drysau.